TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# Y GYFRAITH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB

Addysgu o 2017

I'w ddyfarnu o 2018 (UG)
I'w ddyfarnu o 2019 (Safon Uwch)

Fersiwn 3 Tachwedd 2022



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll. | 22 |
| 3 | Mae *‘Effaith cyfreithiau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfraith Cymru a Lloegr’* wedi’i ddileu o’r cynnwys a’r golofn ymhelaethiad ar gyfer maes astudio 1.1 *‘Deddfu’* yn Uned 1. | 10 |

# CBAC TAG UG ac UWCH yn y Gyfraith

## I'w addysgu o 2017
## UG i'w ddyfarnu o 2018
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni Meini Prawf Cymeradwyo TAG UG ac Uwch y Gyfraith a Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAG UG ac Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017 ymlaen.

**Tudalen**


| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | | **2** |
| 1. | **Rhagarweiniad** | | 4 |
| | 1.1 | Nodau ac amcanion | 4 |
| | 1.2 | Dysgu blaenorol a dilyniant | 5 |
| | 1.3 | Cydraddoldeb a mynediad teg | 5 |
| | 1.4 | Bagloriaeth Cymru | 6 |
| | 1.5 | Persbectif Cymreig | 6 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | | 7 |
| | 2.1 | Unedau UG | 9 |
| | 2.2 | Unedau U2 | 14 |
| 3. | **Asesu** | | 21 |
| | 3.1 | Amcanion asesu a phwysoli | 21 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | | **22** |
| | 4.1 | Cofrestru | 22 |
| | 4.2 | Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 23 |


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG ac UWCH
# Y Gyfraith (CYMRU)
# CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoliad a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

## UG (2 uned)

UG Uned 1: Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
25% o'r cymhwyster 80 marc

**Adran A – Deddfu yng Nghymru a Lloegr a natur y gyfraith**
Cyfanswm o dri chwestiwn: dau gwestiwn gorfodol ac un o ddewis o ddau gwestiwn seiliedig ar senario.

**Adran B – Systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr a natur y Gyfraith**
Un cwestiwn o ddewis o ddau, pob un wedi'i rannu'n rhan a) a rhan b).

UG Uned 2: Cyfraith Camwedd
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
15% o'r cymhwyster 60 marc

Pum cwestiwn am gyfraith camwedd: cymysgedd o gwestiynau atebion byr a chwestiynau traethawd, yn cynnwys cwestiwn seiliedig ar senario.

## Safon Uwch (yr uchod ynghyd â 2 uned arall)

U2 Uned 3: Arfer y Gyfraith Gadarnhaol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
30% o'r cymhwyster 100 marc

Un cwestiwn seiliedig ar senario o **ddwy** adran wahanol, i'w dewis o:
Cyfraith Hawliau Dynol
Cyfraith Contract
Cyfraith Trosedd

U2 Uned 4: Safbwyntiau'r Gyfraith Gadarnhaol
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
30% o'r cymhwyster 100 marc

Un cwestiwn traethawd o **ddwy** adran wahanol, i'w dewis o:
Cyfraith Hawliau Dynol
Cyfraith Contract
Cyfraith Trosedd

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Manyleb unedol yw hon sy’n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2018.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2019.

**Rhifau Cymeradwyo'r Cymhwyster**
TAG UG: C00/1177/7
TAG Uwch: C00/1160/8

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG ac UWCH Y GYFRAITH

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac Amcanion

Mae TAG UG ac Uwch CBAC yn y Gyfraith yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o gyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat yng nghyd-destun cyfraith Cymru a Lloegr, ac i feithrin sgiliau a fydd yn eu paratoi ar gyfer astudiaethau pellach fel israddedigion ac ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'r fanyleb yn galluogi dysgwyr i feithrin eu gallu i ddadansoddi rheolau ac egwyddorion cyfreithiol a materion ffeithiol. Mae'n galluogi dysgwyr i lunio dadleuon cyfreithiol darbwyllol ac i werthuso cryfderau dadleuon o'r fath. Mae hefyd yn galluogi dysgwyr i feithrin y gallu i feddwl yn feirniadol am rôl y gyfraith mewn cymdeithas.

Mae manylebau UG ac Uwch y Gyfraith yn annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r system gyfreithiol yng Nghymru a meysydd o gyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus yng nghyd-destun cyfraith Cymru a Lloegr;
- meithrin dealltwriaeth o ddulliau cyfreithiol a rhesymu y mae cyfreithwyr a'r farnwriaeth yn eu defnyddio;
- meithrin a chymhwyso technegau dulliau cyfreithiol a rhesymu i ddadansoddi problemau a chynnig atebion iddynt, yn seiliedig ar egwyddorion cyfreithiol, deddfwriaeth a chyfraith achosion;
- a meithrin y gallu i ddod i gasgliadau a chyfleu dadleuon cyfreithiol drwy gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol.

Ar lefel U2, bydd dysgwyr yn meithrin y gallu i wneud y canlynol:

- cyfleu dadleuon cyfreithiol darbwyllol drwy gyfeirio at awdurdodau cyfreithiol priodol;
- gwerthuso cryfderau dadleuon cyfreithiol;
- a gallu dangos ymwybyddiaeth feirniadol o ddylanwad y gyfraith a sut caiff ei gweithredu mewn cymdeithas.

Mae manyleb Safon Uwch CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr astudio deinameg y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau cyfreithiol a fydd yn cyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i astudio'r gyfraith mewn sefydliad addysg uwch. Mae gan y fanyleb ffocws eang er mwyn sicrhau y bydd dysgwyr yn profi amrywiaeth o ddisgyblaethau cyfreithiol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr gynhyrchu ymatebion ysgrifenedig estynedig ac arddangos ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg. Mae unedau 3 a 4 yn gofyn i ymgeiswyr ddod â meysydd gwybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth gwahanol ynghyd, o gynnwys perthnasol y fanyleb.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Mae’r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a’r sgiliau a sefydlwyd ar lefel TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn sylfaen addas ar gyfer astudio'r gyfraith neu faes perthnasol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i ddysgwyr nad ydynt am fynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddo nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir mynediad i ymgeiswyr at Ddehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy’n cael eu hatal yn llwyr rhag cymryd rhan yn unrhyw ran o’r asesu.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Drwy ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Drwy ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Mae'r unedau UG yn ymdrin ag astudio systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr a natur y gyfraith. Maent hefyd yn ymdrin ag astudio cyfraith camwedd.

Mae'r unedau U2 yn ymdrin ag astudio dau faes pellach o'r gyfraith, gan ddewis o blith cyfraith hawliau dynol, cyfraith contract a chyfraith trosedd.

**Natur y Gyfraith**

Rhaid i natur y gyfraith gynnwys astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy a rheolau a normau ymddygiad eraill; cyfraith trosedd a chyfraith sifil a ffynonellau gwahanol y gyfraith h.y. arferion, cyfraith statudol a chyfraith gwlad/cyfraith gyffredin.

Ar lefel UG, caiff natur y gyfraith ei asesu yn Uned 1.

Ar lefel U2, caiff natur dreiddiol y gyfraith a chymdeithas, y gyfraith a moesoldeb a'r gyfraith a chyfiawnder ei asesu yn Uned 3 ac Uned 4.

- Y gyfraith a chymdeithas
  - Rheolaeth y gyfraith; hawliau dynol; ystyr a phwysigrwydd bai yng nghyd-destun cyfraith sifil a/neu gyfraith trosedd
  - Pwyso a mesur buddiannau sy'n gwrthdaro; nodi buddiannau gwahanol partïon mewn anghydfodau
  - Buddiannau cyhoeddus o gymharu â buddiannau preifat; darostyngiad hawliau unigol o gymharu â buddiannau cymunedol

- Y gyfraith a moesoldeb
  - Y gwahaniaeth rhwng y gyfraith a moesau
  - Amrywiaeth safbwyntiau moesol mewn cymdeithas blwralaidd
  - Y berthynas rhwng y gyfraith a moesau a'i phwysigrwydd
  - Gorfodi gwerthoedd moesol drwy'r gyfraith

- Y gyfraith a chyfiawnder
  - Ystyr 'cyfiawnder'; damcaniaethau cyfiawnder
  - I ba raddau y mae rheolau cyfreithiol cadarnhaol, sefydliadau cyfreithiol a phrosesau cyfreithiol yn sicrhau cyfiawnder neu'n creu rhwystrau mewn perthynas â chyfiawnder

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Sgiliau Cyfreithiol**

Mae sgiliau cyfreithiol yn rhan annatod o unedau UG ac U2.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr feithrin cymhwysedd o ran defnyddio sgiliau cyfreithiol wrth astudio natur y gyfraith, materion cyfreithiol a systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr, a meysydd preifat a chyhoeddus cyfraith gadarnhaol.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddangos eu gallu i ddadansoddi senario ffeithiol drwy nodi'r ffeithiau allweddol y mae materion cyfreithiol yn deillio ohonynt.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr, wrth lunio dadl gyfreithiol, ddadansoddi deddfwriaeth drwy gymhwyso rheolau ac egwyddorion dehongli statudol a dadansoddi cyfraith achosion drwy ddefnyddio athrawiaeth cynsail.

O ran pob maes o'r gyfraith gadarnhaol y maent yn ei astudio, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddadansoddi, cymhwyso a gwerthuso rheolau ac egwyddorion cyfreithiol y maes hwnnw o'r gyfraith. Rhaid i'r broses dadansoddi a chymhwyso gynnwys y gallu i gymhwyso egwyddorion cyfreithiol at senario damcaniaethol. Fel rhan o'r broses werthuso, mae'n ofynnol i ddysgwyr gefnogi cynnig penodol drwy gyfeirio at y rheolau a'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol sy'n ategu'r ddadl honno.

Mae'r fanyleb hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr lunio dadleuon cyfreithiol wedi'u hategu gan awdurdod cyfreithiol a chan ddefnyddio terminoleg gyfreithiol briodol. Yn ogystal, ar lefel U2, mae'n ofynnol i ddysgwyr lunio dadl gyfreithiol ddarbwyllol gan gynnwys enghreifftiau lle maent wedi cydnabod nad oes unrhyw gynseiliau cyfreithiol amlwg na chynseiliau sy'n gwrthdaro i ddatrys problem.

Ar lefel U2, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso materion cyfreithiol mewn modd beirniadol drwy nodi safbwyntiau gwahanol, gan gynnwys systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr, gan ategu eu rhesymau dros nodi'r safbwynt cryfaf a dangos y gallu i ddadlau yn erbyn safbwyntiau amgen.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# 2.1 UNEDAU UG

## UNED 1

**Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
25% o'r cymhwyster
60 marc

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o natur y gyfraith a systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr. Mae'n canolbwyntio ar strwythur systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr, gan gynnwys eu perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ffynonellau deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr ac yn ystyried sut caiff y cyfreithiau hynny eu defnyddio gan farnwyr wrth wneud penderfyniadau. Byddant hefyd yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system cyfiawnder troseddol, y system cyfiawnder sifil, gan gynnwys personél cyfreithiol perthnasol a systemau ariannu cyfreithiol. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Setliad Datganoli yng Nghymru a'i effaith.

Mae Adran A yn canolbwyntio ar natur y gyfraith a'r amrywiol ddulliau deddfu o fewn systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr.

Mae Adran B yn canolbwyntio ar nodweddion allweddol y system cyfiawnder troseddol a'r system cyfiawnder sifil yn systemau cyfreithiol Cymru a Lloegr, gan gynnwys personél cyfreithiol a systemau ariannu cyfreithiol. Mae hefyd yn cynnwys natur y gyfraith.

Lle y bo'n briodol, dylid defnyddio cyfraith achosion ac awdurdod perthnasol.

Mae sgiliau cyfreithiol yn rhan annatod o'r uned hon.

**Adran A**

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu | Natur y Gyfraith |
|---|---|---|
| **1.1**<br>**Deddfu** | • Cyd-destun hanesyddol deddfu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (DU), gan gynnwys sofraniaeth Seneddol, gwahanu pwerau a rheolaeth y gyfraith; Uchelfraint Frenhinol<br>• Y broses ddeddfwriaethol yng Nghymru a'r DU: Deddfu Senedd Prydain; deddfu corff deddfwriaethol Cymru: cyfansoddiad a rôl y Senedd a chorff deddfwriaethol Cymru<br>• Dylanwadau ar y Senedd a chorff deddfwriaethol Cymru fel effeithiau carfanau pwyso a grwpiau budd; manteision ac anfanteision y dylanwadau ar ddeddfu | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy<br>• Astudio cyfraith trosedd a chyfraith sifil a ffynonellau gwahanol y gyfraith |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu | Natur y Gyfraith |
|---|---|---|
| | • Y Setliad Datganoli yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Goruchaf Lys<br>• Diwygio'r gyfraith; rôl asiantaethau diwygio'r gyfraith swyddogol, gan gynnwys Comisiwn y Gyfraith a rôl carfanau pwyso a dylanwadau barnwrol | |
| **1.2 Deddfwriaeth ddirprwyedig** | • Ffynonellau deddfwriaeth ddirprwyedig, gan gynnwys mathau o ddeddfwriaeth ddirprwyedig yng Nghymru a'r DU: offerynnau statudol, is-ddeddfau, gorchmynion y cyfrin gyngor<br>• Rheolaethau dros ddeddfwriaeth ddirprwyedig gan gynnwys Adolygu Barnwrol, cadarnhad cadarnhaol a negyddol, a rôl y pwyllgorau seneddol sy'n craffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig<br>• Rhesymau dros ddefnyddio deddfwriaeth ddirprwyedig a manteision ac anfanteision deddfwriaeth ddirprwyedig<br>• Rôl cyrff deddfwriaethol datganoledig; y Setliad Datganoli yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Goruchaf Lys | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy<br>• Astudio cyfraith sifil a ffynonellau gwahanol y gyfraith |
| **1.3 Dehongli statudol** | • Dehongli statudol, gan gynnwys yr amrywiol ddulliau a rheolau dehongli statudol, gan gynnwys y rheol lythrennol, y rheol aur, y rheol drygioni, y dull bwriadus ac effaith Deddf Hawliau Dynol 1998 a chyfraith Ewrop ar ddehongli statudol<br>• Defnyddio cymhorthion cynhenid gan gynnwys y teitl byr a hir, nodiadau yn yr ymylon, penawdau ac atalnodi<br>• Defnyddio cymhorthion anghynhenid gan gynnwys adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ac adroddiadau'r Comisiwn Brenhinol | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy<br>• Astudio cyfraith trosedd a chyfraith sifil a ffynonellau gwahanol y gyfraith |
| **1.4 Cynsail Farnwrol** | • Cynsail farnwrol, gan gynnwys athrawiaeth cynsail, nodi *ratio decidendi* ac *obiter dicta* a | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau cyfreithiol gorfodadwy |

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu | Natur y Gyfraith |
|---|---|---|
| | mathau o gynsail, gan gynnwys cynsail berswadiol a rhwymol<br>• Hierarchaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y Goruchaf Lys<br>• Technegau osgoi, gan gynnwys gwrthod/dirymu, gwrthdroi a gwahaniaethu<br>• Manteision ac anfanteision cynsail | a rheolau a normau ymddygiad eraill<br>• Astudio cyfraith trosedd a chyfraith sifil a ffynonellau gwahanol y gyfraith |

**ADRAN B**

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu | Natur y Gyfraith |
|---|---|---|
| **1.5**<br>**Y llysoedd sifil** | • Y llysoedd sifil: strwythur, pwerau a swyddogaethau apeliadol gan gynnwys defnyddio rheithgorau mewn achosion sifil: eu dewis, eu rôl gyfyngedig mewn achosion sifil a beirniadaethau ar eu defnydd<br>• Tribiwnlysoedd, cyflafareddiad a dulliau amgen o ddatrys anghydfodau gan gynnwys eu manteision a'u hanfanteision<br>• Datblygiad tribiwnlysoedd, eu rôl a'u rheolaeth, gan gynnwys enghreifftiau o fathau gwahanol o dribiwnlysoedd<br>• Cyflafareddu o fewn system y llysoedd a'r tu allan iddi<br>• Dulliau amgen o ddatrys anghydfodau, gan gynnwys cyflafareddu, cyfryngu a chymodi | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy a rheolau a normau ymddygiad eraill<br>• Astudio'r gyfraith sifil |
| **1.6**<br>**Y broses droseddol** | • Y llysoedd troseddol: strwythur, pwerau a swyddogaethau apeliadol; pwerau'r llysoedd ynadon a Llys y Goron; Canllawiau'r Llys Apêl ar gyfer dwyn apeliadau<br>• Egwyddorion cyffredinol dedfrydu oedolion a phobl ifanc o dan ddeddfwriaeth briodol; damcaniaethau ac amcanion dedfrydu<br>• Rôl pobl leyg: rôl ynadon, treial gan reithgor: gan gynnwys dewis rheithgor, y rheithgor a chwestiynau ffeithiol, rheithfarn y mwyafrif, cyfrinachedd y rheithgor a defnyddio rheithgorau mewn Llys Crwner, beirniadaethau a dewisiadau eraill ar wahân i'r system rheithgorau | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy a rheolau a normau ymddygiad eraill<br>• Astudio'r gyfraith trosedd |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| **1.7**<br>**Personél cyfreithiol** | • Bargyfreithwyr a chyfreithwyr: addysg, hyfforddiant a rôl. Strwythur y proffesiynau cyfreithiol; uno, penodi, hyfforddi a chefndir cymdeithasol<br>• Rôl y gweithredwr cyfreithiol a phersonél paragyfreithiol<br>• Rheoleiddio'r proffesiynau cyfreithiol<br>• Y farnwriaeth: rôl, hierarchaeth, dethol, hyfforddi, cyfansoddiad, rheoleiddio, safle cyfansoddiadol ac annibyniaeth farnwrol a rheolaeth y gyfraith<br>• Ynadaeth a barnwyr rhanbarth yn y llysoedd ynadon: rôl, dethol, penodi a hyfforddi | • Astudio rheolau a normau ymddygiad eraill<br>• Astudio cyfraith trosedd a chyfraith sifil |
| **1.8**<br>**Mynediad at gyfiawnder a chyllid** | • Ffynonellau arian: Cymorth Cyfreithiol Sifil<br>• Ffynonellau arian: Cymorth Cyfreithiol Troseddol a Gwasanaethau Amddiffynwyr Cyhoeddus<br>• Ariannu achosion sifil a throseddol, gan gynnwys cynlluniau cynghori a rôl yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, profion haeddiant, profion modd, meini prawf cymhwyso a blaenoriaethau ar gyfer ariannu.<br>• Cytundebau ffi amodol gan gynnwys sut maent yn gweithio, eu manteision a'u hanfanteision | • Astudio'r gwahaniaeth rhwng rheolau ac egwyddorion cyfreithiol gorfodadwy a rheolau a normau ymddygiad eraill<br>• Astudio cyfraith trosedd a chyfraith sifil |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# UG UNED 2

**Cyfraith Camwedd**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
15% o'r cymhwyster
60 marc

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau a damcaniaeth cyfraith camwedd. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o atebolrwydd o ran esgeuluster mewn perthynas ag anafiadau i bobl a bydd yn ofynnol iddynt gymhwyso elfennau o'r gyfraith esgeuluster at senarios damcaniaethol. Byddant yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o atebolrwydd meddianwyr. Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o rwymedïau, gan gynnwys iawndal, lliniaru colled a gwaharddebion.

Lle y bo'n briodol, dylid defnyddio cyfraith achosion ac awdurdod perthnasol.

Mae sgiliau cyfreithiol yn rhan annatod o'r uned hon.

**Cyfraith Camwedd**

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| **2.1**<br>**Rheolau a damcaniaeth cyfraith camwedd** | • Tarddiad cyfraith camwedd; categorïau camwedd; damcaniaethau cyfraith camwedd. Y cysyniad o fai o gymharu ag atebolrwydd caeth<br>• Cyfiawnhau camwedd mewn modd economaidd; cyfiawnder cywirol<br>• Cyfiawnder dialgar<br>• Beirniadaethau mewn perthynas â'r system camwedd |
| **2.2**<br>**Atebolrwydd o ran esgeuluster mewn perthynas ag anafiadau i bobl a difrod i eiddo** | • Dyletswydd gofal: pobl a difrod i eiddo; egwyddor cymydog; prawf Caparo<br>• Tor-dyletswydd: y dyn rhesymol; y safon gofal wrthrychol<br>• Achosiaeth difrod: prawf 'pe na bai'; achosiaeth gyfreithiol; rhagweladwyaeth; effaith gweithred ymyrrol; pellenigrwydd difrod<br>• Anaf seiciatrig: dioddefwyr cynradd ac eilaidd |
| **2.3**<br>**Atebolrwydd meddianwyr** | • Atebolrwydd mewn perthynas ag ymwelwyr cyfreithlon (*Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957)*<br>• Atebolrwydd mewn perthynas â thresmaswyr (*Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1984)*<br>• Categorïau arbennig o ymwelwyr, yn enwedig plant |
| **2.4**<br>**Rhwymedïau** | • Iawndal, gan gynnwys iawndal cydadferol; lliniaru colled; gwaharddebion |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# 2.2 UNEDAU U2

## UNED 3

**Arfer y Gyfraith Gadarnhaol**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud
30% o'r cymhwyster
100 marc

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o **ddau** faes o'r gyfraith o'r meysydd a restrir isod:

- cyfraith hawliau dynol
- cyfraith contract
- cyfraith trosedd.

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol mewn perthynas â'r meysydd o'r gyfraith a ddewiswyd ganddynt. Bydd dysgwyr yn rhannu'r rheolau a'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol ar gyfer pob maes o'r gyfraith gadarnhaol yn gydrannau ac yn cymhwyso'r rheolau hynny at senario damcaniaethol.

Lle y bo'n briodol, dylid defnyddio cyfraith achosion ac awdurdod perthnasol.

Mae sgiliau cyfreithiol yn rhan annatod o'r uned hon.

**Cyfraith Hawliau Dynol**

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| **3.1**<br>**Rheolau a damcaniaeth cyfraith hawliau dynol** | • Rheolau cyfraith hawliau dynol a damcaniaeth ym maes cyfraith hawliau dynol; hawliau dynol a rhyddid sifil, ystyr hawliau<br>• Y gwahaniaeth rhwng hawliau a rhyddid<br>• Rôl y Senedd a'r llysoedd o ran eu rheoleiddio<br>• Y ddadl o ran natur ddiysgog Deddf Hawliau Dynol 1998<br>• Diogelu hawliau a rhyddid o fewn cyfansoddiad y Deyrnas Unedig<br>• Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; hanes a chwmpas y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a sut caiff ei roi ar waith<br>• Effaith Deddf Hawliau Dynol 1998; Bil Hawliau'r Deyrnas Unedig<br>• Beirniadaethau mewn perthynas â hawliau dynol; natur ddiysgog y Ddeddf Hawliau Dynol yn setliadau datganoli Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon<br>• Natur dreiddiol y gyfraith a chymdeithas, y gyfraith a moesoldeb a'r gyfraith a chyfiawnder ar gyfraith hawliau dynol |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **3.2**<br>**Darpariaethau penodol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol** | • Darpariaethau Erthygl 8, yr hawl i gael parch tuag at fywyd teuluol a phreifat, y cartref a gohebiaeth; Eithriadau Erthygl 8; rhwymedigaethau negyddol a chadarnhaol<br>• Darpariaethau Erthygl 10, yr hawl i ryddid mynegiant. Eithriadau Erthygl 10<br>• Darpariaethau Erthygl 11, yr hawl i ymgynnull yn heddychlon ac i ymgysylltu ag eraill, gan gynnwys yr hawl i ffurfio undebau llafur ac i ymuno â nhw. Eithriadau Erthygl 11 |
| **3.3**<br>**Cyfyngiadau, gan gynnwys cyfyngiadau a ganiateir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol** | • Troseddau trefn gyhoeddus - y rhyddid i gyfarfod, ymgasglu, gwrthdystio a phrotestio; y berthynas rhwng cadw trefn gyhoeddus a mynegi barn ac anfodlonrwydd yn gyfreithlon. Rheoli cynulliadau, cyfarfodydd a phrotestiadau cyhoeddus. Troseddau yn erbyn trefn gyhoeddus, gan gynnwys annog casineb hiliol a chasineb crefyddol<br>• Pwerau'r heddlu - y gyfraith o ran pwerau stopio a chwilio'r heddlu; chwilio eiddo; arestio; cadw yn y ddalfa; hawliau pobl sydd wedi'u cadw yn y ddalfa gan yr heddlu. Rhwymedïau yn erbyn yr heddlu, gan gynnwys am achosion o erlyn maleisus a cham-garcharu<br>• Rhyng-gipio cyfathrebu - mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion; tapio ffôn<br>• Dyletswydd cyfrinachedd – tor-cyfrinachedd, camddefnyddio gwybodaeth breifat<br>• Anweddustra - dadleuon o blaid ac yn erbyn cyfyngu; problemau diffinio; dulliau rheoli; rheolaeth dros lyfrau, cylchgronau, ffilmiau, DVDs, perfformiadau byw, darlledu; diwygiadau<br>• Camweddau difenwi - amddiffyn enw da - difenwad<br>• Camweddau tresmasu, aflonyddu |
| **3.4**<br>**Gorfodaeth** | • Rôl llysoedd domestig<br>• Y broses adolygu barnwrol<br>• Rôl Llys Hawliau Dynol Ewrop |
| **3.5**<br>**Y ddadl mewn perthynas â diogelu hawliau dynol yn y DU** | • Diwygio'r broses o ddiogelu hawliau dynol yn y Deyrnas Unedig<br>• Yr angen am Fil Hawliau'r Deyrnas Unedig<br>• Rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |

**Cyfraith Contract**

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| **3.6**<br>**Rheolau a damcaniaeth cyfraith contract** | • Tarddiad a diffiniad cyfraith contract. Swyddogaeth cyfraith contract<br>• Damcaniaeth cyfraith contract fel cyfres o reolau sy'n galluogi pobl i lunio cytundebau'n rhydd ar eu telerau eu hunain. Pwysigrwydd cyfraith contract o ran datblygu economaidd<br>• Dadleuon o blaid datblygu system cyfraith contract Ewropeaidd a/neu fyd-eang<br>• Y berthynas rhwng hawliau dynol a chyfraith contract<br>• Ymwybyddiaeth gyffredinol o effaith penderfyniadau barnwrol, deddfwriaeth a darpariaethau'r UE mewn perthynas â llunio contractau a'u cyflawni<br>• Rhyddid i lunio contractau, y berthynas â diogelu defnyddwyr<br>• Natur dreiddiol y gyfraith a chymdeithas, y gyfraith a moesoldeb a'r gyfraith a chyfiawnder ar gyfraith contract |
| **3.7**<br>**Gofynion hanfodol contract, gan gynnwys preifatrwydd contract** | • Cynnig: gofynion cynnig dilys, gwahaniaethu rhwng cynigion a gwahoddiadau i drafod, cyfleu'r cynnig, cynigion unochrog<br>• Derbyn: rheolau derbyn, cyfleu penderfyniad i dderbyn<br>• Cydnabyddiaeth: rheolau cydnabyddiaeth gan gynnwys cyflawni dyletswydd contract parod, cyflawni dyletswydd cyhoeddus parod, cydnabyddiaeth o'r gorffennol, rhan-daliad ac estopel addewidiol<br>• Bwriad i greu cysylltiadau cyfreithiol: trefniadau cymdeithasol a domestig, cytundebau masnachol a busnes<br>• Preifatrwydd contract: y rheol sylfaenol (dim ond partïon i gontract sy'n rhwym iddo, a dim ond y partïon i gontract sy'n gallu cael hawliau a buddiannau ohono), eithriadau i'r rheol gan gynnwys eithriadau cyfraith gwlad/cyfraith gyffredin (fel gyda chontractau cyfochrog a defnyddio cyfamodau cyfyngu tir), ac effeithiau *Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999* ar breifatrwydd contract. |
| **3.8**<br>**Telerau datganedig ac ymhlyg, amodau, gwarantau a thelerau anenwol, cymalau eithrio a chyfyngu** | • Rhwymedigaethau o dan gontract: y gwahaniaeth rhwng ymliwiadau a thelerau<br>• Telerau datganedig: ymgorffori telerau datganedig, rheol tystiolaeth ymadroddol<br>• Telerau ymhlyg: telerau ymhlyg yn ôl ffaith, telerau ymhlyg yn ôl statud: telerau ymhlyg o dan *Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015, Rheoliadau Contractau Defnyddwyr 2013*<br>• Cymalau eithrio mewn contractau defnyddwyr a chontractau busnes i fusnes: ymgorffori cymalau eithrio, *Deddf Telerau Contract Annheg 1977*<br>• Telerau eraill: amodau, gwarantau, telerau anenwol |

| | |
|---|---|
| **3.9**<br>**Camliwio a gorfodaeth economaidd** | • Camliwio twyllodrus: ystyr camliwio twyllodrus a'r rhwymedïau sydd ar gael<br>• Camliwio anfwriadol: ystyr camliwio anfwriadol a'r rhwymedïau sydd ar gael<br>• Camliwio esgeulus: ystyr camliwio esgeulus a'r rhwymedïau sydd ar gael<br>• *Deddf Camliwio 1967:* camliwio statudol o dan a.2, y cyfyngiad ar atebolrwydd o dan a.3 a'r rhwymedïau sydd ar gael<br>• Gorfodaeth economaidd: ystyr gorfodaeth economaidd, sut mae'n wahanol i orfodaeth gorfforol ac unrhyw rwymedïau sydd ar gael |
| **3.10**<br>**Rhyddhau contractau, gan gynnwys tor-contract, cyflawni a llesteirio** | • Rhyddhau drwy gytundeb: cytundebau dwyochrog, cytundebau unochrog<br>• Rhyddhau drwy dor-contract: achos gwirioneddol o dor-contract, achos a ragwelir o dor-contract<br>• Rhyddhau drwy lesteirio: amhosibilrwydd, anghyfreithlondeb, masnachol, newid radical mewn amgylchiadau<br>• Rhyddhau drwy gyflawni: gan gynnwys cyflawni rhwymedigaeth gyfan, cyflawni'n rhannol, y contract fel cyfres o rwymedigaethau cyfan, cyflawni rhwymedigaethau'n sylweddol, methu bodloni safon cyflawni llym a methu cyrraedd safon gofal rhesymol |
| **3.11**<br>Rhwymedïau gan gynnwys iawndal a rhwymedïau ecwitïol | • Rhwymedi iawndal Cyfraith Gwlad/Cyfraith Gyffredin: iawndal cydadferol, profion achosiaeth, pellenigrwydd difrod, lliniaru colledion<br>• Rhwymedïau ecwitïol: dadwneuthuriad, cyflawniad llythrennol, cywiro dogfen, gwaharddebion |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Cyfraith Trosedd**

| Maes astudio | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| **3.12**<br>**Rheolau a damcaniaeth cyfraith trosedd** | • Rheolau cyfraith trosedd a damcaniaeth ym maes cyfraith trosedd; diffiniad o drosedd a diben cyfraith trosedd; baich a safon y prawf<br>• Codeiddio cyfraith trosedd<br>• Swyddogaethau Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan gynnwys amlinelliad o rolau'r Twrnai Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus<br>• Mechnïaeth a remánd yn y ddalfa, gan gynnwys mechnïaeth gan yr heddlu a gan y llys<br>• Y broses treialon, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, gweithdrefn treialon a'r broses apêl<br>• Natur dreiddiol y gyfraith a chymdeithas, y gyfraith a moesoldeb a'r gyfraith a chyfiawnder ar gyfraith trosedd |
| **3.13**<br>**Elfennau cyffredinol atebolrwydd** | • Elfennau trosedd: *actus reus* gan gynnwys ymddygiad gwirfoddol ac anwirfoddol, canlyniadau ac anwaith<br>• Elfennau trosedd: *mens rea*: bai, gan gynnwys esgeuluster, byrbwylltra a bwriad<br>• Achosiaeth; profion achosiaeth cyfreithiol a ffeithiol<br>• Atebolrwydd Caeth; gan gynnwys y profion yn *Gammon* (Hong Kong) Ltd v A-G of Hong Kong (1985)<br>• Baich a safon y prawf |
| **3.14**<br>**Troseddau corfforol** | • Trosedd angheuol llofruddiaeth: elfennau a chymhwyso'r gyfraith<br>• Trosedd angheuol dynladdiad anwirfoddol: elfennau a chymhwyso'r gyfraith, gan gynnwys dynladdiad drwy ddehongliad (y cyfeirir ato hefyd fel dynladdiad gweithred anghyfreithlon); dynladdiad drwy esgeuluster difrifol<br>• Trosedd angheuol dynladdiad gwirfoddol: elfennau a chymhwyso'r gyfraith; amddiffyniadau colli rheolaeth a chyfrifoldeb lleihaedig<br>• Troseddau nad ydynt yn angheuol: *Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988*: ymosod a churo<br>• Troseddau nad ydynt yn angheuol: *Deddf Troseddau Corfforol 1861:* gwir niwed corfforol; anafu ac achosi niwed corfforol difrifol; anafu ac achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol |
| **3.15**<br>**Troseddau eiddo, gan gynnwys dwyn a lladrad** | • Dwyn a lladrad: *actus reus* (perchnogi, eiddo, yn perthyn i rywun arall), *mens rea* (anonestrwydd, bwriad i amddifadu'n barhaol), *(a.1 Deddf Dwyn 1968)*<br>• Lladrad: dwyn gan ddefnyddio neu fygwth defnyddio grym (*a.8 Deddf Dwyn 1968)*<br>• Bwrgleriaeth: Elfennau *a.9(1)(a) ac a.9(1)(b) Deddf Dwyn 1968;* bwrgleriaeth mewn anheddau ac adeiladau eraill |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **3.16**<br>**Amddiffyniadau** | • Amddiffyniadau gallu mewn perthynas â gorffwylledd a meddwdod<br>    ○ Meddwdod o ganlyniad i alcohol<br>    ○ Meddwdod o ganlyniad i gyffuriau<br>    ○ Gorffwylledd<br>    ○ Awtomatiaeth: awtomatiaeth orffwyll a heb fod yn orffwyll<br>• Amddiffyniadau rheidrwydd mewn perthynas â hunanamddiffyniad, gorfodaeth a gorfodaeth amgylchiadau |
| **3.17**<br>**Troseddau ymgais rhagarweiniol** | • Diffiniad statudol: *mens rea* ac *actus reus;* yn golygu 'mwy na dim ond paratoadol'<br>• Ymgais i gyflawni'r amhosibl |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# U2 UNED 4

**Safbwyntiau'r Gyfraith Gadarnhaol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
30% o'r cymhwyster
100 marc

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o **ddau** faes o'r gyfraith o'r meysydd a restrir isod:

- cyfraith hawliau dynol
- cyfraith contract
- cyfraith trosedd.

Nodir cynnwys ac ymhelaethiad ar bob un o'r meysydd hyn o'r gyfraith ar dudalennau 14 i 19 y fanyleb hon.

Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol, a dadansoddi a gwerthuso rheolau, egwyddorion, cysyniadau a materion cyfreithiol.

Lle y bo'n briodol, dylid defnyddio cyfraith achosion ac awdurdod perthnasol.

Mae sgiliau cyfreithiol yn rhan annatod o'r uned hon.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhestri isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o reolau ac egwyddorion cyfreithiol

**AA2**
Cymhwyso rheolau ac egwyddorion cyfreithiol at senarios a roddir er mwyn cyflwyno dadl gyfreithiol gan ddefnyddio terminoleg gyfreithiol briodol

**AA3**
Dadansoddi a gwerthuso rheolau, egwyddorion, cysyniadau a materion cyfreithiol

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli'r amcanion asesu fel canran o'r Safon Uwch lawn, gyda phwysoli'r UG mewn cromfachau.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1:** | 10% (25%) | 7.5% (18.75%) | 7.5% (18.75%) | 25% (62.5%) |
| **UG Uned 2:** | 6% (15%) | 4.5% (11.25%) | 4.5% (11.25%) | 15% (37.5%) |
| **U2 Uned 3** | 12% | 18% | - | 30% |
| **U2 Uned 4** | 12% | - | 18% | 30% |
| **Pwysoli Cyffredinol** | 40% | 30% | 30% | 100% |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy’n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2018.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2019.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | **Teitl** | **Codau Cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr | 2150U1 | 2150N1 |
| UG Uned 2 | Cyfraith Camwedd | 2150U2 | 2150N2 |
| U2 Uned 3 | Arfer y Gyfraith Gadarnhaol | 1150U3 | 1150N3 |
| U2 Uned 4 | Safbwyntiau'r Gyfraith Gadarnhaol | 1150U4 | 1150N4 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2150QS | 2150CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1150QS | 1150CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru ar gyfer y fanyleb hon gydag unrhyw un o fanylebau UG neu Safon Uwch eraill CBAC.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu cyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chydgasglu canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae uchafswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar bwysoliad yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd yr uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoliad yr Uned** | **Uchafswm marc unffurf yr uned** | a | b | c | ch | d |
| **Uned 1 (25%)** | 125 | 100 | 88 | 75 | 63 | 50 |
| **Uned 2 (15%)** | 75 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 |
| **Uned 3 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |
| **Uned 4 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |

Mae'r marciau unffurf sy'n cael eu hennill am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd ac mae'r radd am y pwnc yn seiliedig ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm marciau unffurf** | **A** | **B** | **C** | **CH** | **D** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).



ⓗ WJEC CBAC Cyf.